Y Rhai sy'n Gofalu

O wybod bod Duw yn cynnal ei greadigaeth ac yn gofalu am adar yr awyr a blodau'r maes, gallwn ollwng ein holl ofalon a'n pryderon arno ef ac ymddiried ein hunain i'w ofal.

EMYNAU

Erfyniwn am nerth i gario beichiau'n brodyr a'n chwiorydd sydd mewn angen:

Rho imi nerth i wneud fy rhan,
i gario baich fy mrawd,
i weini'n dirion ar y gwan
a chynorthwyo'r tlawd.

E. A. Dingley *cyf*. Nantlais (*Caneuon Ffydd*: 805)

Gwyliwn nad ydym yn cau ein llygaid ar angen mawr y byd:

Cofia'r newynog, nefol Dad,
filiynau llesg a thrist eu stad
sy'n llusgo byw yng nghysgod bedd,
ac angau'n rhythu yn eu gwedd.

Tudor Davies (*Caneuon Ffydd*: 816)

Gwaith y Cristion ymhob oes yw arddangos cariad ac estyn balm i iro'r briwiau:

O Arglwydd, gwna ni'n ffyddlon
i gyd-ddyn ymhob gwlad,
a'n gweddi ddwys fo'n gyson
am fron heb ddig na brad;
enynner ynom gariad
yn awr ym more'r daith
i estyn balm Gilead
i deulu'r clwyf a'r graith.

T. Elfyn Jones (*Caneuon Ffydd*: 831)

Gwae'r eglwys o fyw yn esmwyth tra mae'r byd yn gwaedu:

Llifed cariad pen Calfaria
drwy dy Eglwys ato ef;
a'th diriondeb di dy hunan
glywo'r truan yn ei llef:
dysg hi i ofni byw yn esmwyth
gan anghofio'r byd a'i loes,
nertha hi i dosturio wrtho
a rhoi'i hysgwydd dan ei groes.

W. Pari Huws (Caneuon Ffydd: 839)

Mae gwaedd y dolurus yn gofyn am ymateb o dosturi a gras:

A glywaist ti waedd yr anghenus
o'i dlodi yn anterth ei drin?
Mae'n ymbil o galon ddolurus
am nerth a chynhaliaeth i'r blin:
ymateb i'w gri yn drugarog,
rho brawf fod tosturi yn fyw,
mewn angen mae eisiau cymydog
sy'n tystio bod gras wrth y llyw.

D. Hughes Jones (*Caneuon Ffydd*: 843)

Gofynnwn am gymorth Duw i fynd allan i'r byd i wneud ei waith a hynny yw troi'r byd wyneb i waered:

Anfonodd Iesu fi
i'r byd i wneud ei waith
a gwneud yn siŵr y daw
ei deyrnas ef yn ffaith;
nid gwaith angylion yw
troi byd o boen a braw
yn fyd o gariad pur
a heddwch ar bob llaw:
anfonodd Iesu fi

i wir ryddhau ei fyd,
O Dduw, rho help im wneud
d'ewyllys di o hyd.

Emyn traddodiadol o Cuba
cyf. Jorge Maldonado a Meurwyn Williams (*Caneuon Ffydd*: 866)

GWEDDÏAU

Rwyt ti wedi dod i'n byd yn Iesu Grist i ofalu amdanom:

Moliannwn dy enw, O! Dduw, am dy gariad mawr tuag atom. Cofiwn am y modd y bu i ti ddod i'n byd yn Iesu Grist, dy Fab, i ddangos i ni gariad, a diolchwn fod rhywrai ym mhob oes wedi dilyn ei esiampl ef. Amen.

Elwyn Richards

Diolch dy fod ti wedi dod yn agos atom yn awr ein hangen:

Diolchwn, O! Dad, am bawb a'th deimlodd di'n agos pan oedd eu gofal yn fawr, am bob un a glywodd dy lef ddistaw fain yng nghanol dwndwr gwaith a gorchwyl. Credwn, Arglwydd, dy fod yn paratoi dy bobl at bob tasg ac yn eu nerthu ar gyfer pob gofyn: credwn nad oes ar y cynorthwywyr angen help, ac y gellir llafurio a gofalu yn ddiorffwys. Yn dy drugaredd symbyla ninnau hefyd, y rhai y mae baich ein gofal yn ysgafn, i gefnogi a chysuro'r rhai sy'n gorfod dyfalbarhau. Amen.

Elwyn Richards

Cyflwynwn bawb sy'n barod i fynd yr ail filltir er mwyn gofalu am eraill:

Diolch i ti am y bobl hynny sy'n barod i 'gerdded yr ail filltir' yn eu gofal dros eraill. Rhai sy'n barod i rannu'r beichiau a rhannu'r gofidiau dros gâr neu gydnabod neu gyfaill. Diolch am 'ofalwyr' felly yn ein cymdeithas, ac agor ein llygaid i weld sut y gallwn ninnau fod yn gyfryngau gofal fel hyn dros eraill. Amen.

Tecwyn Ifan

Diolchwn i ti am dy ofal trosom ond paid â gadael i ni anghofio y rhai sydd mewn angen:

Arglwydd, yr wyt ti wedi rhoi cymaint i ni:
Bywyd, mewn byd lle mae llawer yn marw'n ieuanc;
Iechyd, mewn byd lle mae llawer nad ydynt yn holliach;
Bwyd, mewn byd lle mae llawer yn newynu;
Addysg, mewn byd lle mae cynifer heb gyfle i ddysgu;
Diogelwch, mewn byd lle mae llawer mewn ofn.

Ni allwn dy dalu'n ôl, ond dangos i ni yr hyn y gallwn ei wneud dros eraill. Helpa ni i gofio dy blant mewn gwledydd eraill, yn arbennig y rhai sydd mewn newyn ac afiechyd, sy'n ddigartref ac yn ofnus, sy'n wrthodedig heb fod ar neb eu heisiau. Boed i ni fod iddynt yn sianelau dy gariad fel cyd-aelodau o'th deulu. Amen.

Pecyn Trafod Teulu Duw

Cofiwn am y plant ledled y byd sydd angen gofal a chariad:

Gwna i'n calonnau losgi o'n mewn dros rai bychain mewn ofn, tywyllwch ac anobaith a deffra ein cydwybod i'w hamddiffyn a'u hymgeleddu, yn enw Iesu Grist a gymerodd blant bychain i'w freichiau ac a ddywedodd, 'Eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd'. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

ADNODAU

Gofalodd Mair, ei fam, yn dyner am ei mab o Fethlehem i'r Groes:

Rhyfeddodd pawb a'u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt; ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt.

Luc 2: 18–19

Roedd gofal y pedwar am y claf yn fawr; dechreuasant ddad-doi'r tŷ:

Daethant â dyn wedi ei barlysu ato, a phedwar yn ei gario.

Marc 2: 3

Gofalodd y Samariad, sef y gelyn, am yr un oedd wedi syrthio i blith lladron:

"Prun o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?" Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai Iesu wrtho, "Dos, a gwna dithau yr un modd."

Luc 10: 36–37

Duw yw'r un sy'n gofalu amdanom ac yn ein tywys gerllaw y dyfroedd tawel:

Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision,
a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel.

Salm 23: 2

Ar ôl y chwilio mae'r ddafad yn ôl yng ngofal y bugail a phryd hynny mae ei gwpan yn llawn:

Wedi dod o hyd iddi y mae'n ei gosod ar ei ysgwyddau yn llawen, yn mynd adref, ac yn gwahodd ei gyfeillion a'i gymdogion ynghyd, gan ddweud wrthynt, 'Llawenhewch gyda mi, oherwydd yr wyf wedi cael hyd i'm dafad golledig.'

Luc 15: 5–6

Yn ing ei ddioddefaint gofalodd Iesu'n dyner am ei fam:

Pan welodd Iesu ei fam, felly, a'r disgybl yr oedd yn ei garu yn sefyll yn ei hymyl, meddai wrth ei fam, "Wraig, dyma dy fab di."

Ioan 19: 26

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Mae Duw yn ein galw i fod yn gymdogion da, cariadus a gofalus, yn arbennig i'r rhai sydd wir angen help. Cofiwn mai Samariad – gelyn – a roddodd gymorth a chysur i'r gŵr oedd wedi syrthio i blith lladron.

Nid yw Duw'n addo y bydd yn ein harwain o'r dyffrynnoedd tywyll, du ond yn hytrach yn addo y bydd gyda ni i'n nerthu a'n dyrchafu yn y lleoedd hynny.

Y llaw a estynno'n llawn
A gynnull yn deg uniawn.

William Llŷn

Nid yw'r ddelfryd Gristnogol wedi'i mentro a'i chael yn brin. Y mae wedi ei chael yn anodd a heb ei mentro.

G. K. Chesterton

Cwestiwn mwyaf tyngedfennol bywyd yw, 'Beth wyt ti'n ei wneud dros eraill?'

Martin Luther King